

BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGULLEOL NEWYDD 2021-2036

Y GYMRAEG

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP30



Crynodeb Gweithredol

- i. Paratowyd y papur cefndir hwn fel tystiolaeth ategol i Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Bro Morgannwg 2021 – 2036. Mae'r papur cefndir yn darparu asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth o statws a thueddiadau'r Gymraeg ym Mro Morgannwg ac yn amlinellu sut y gall y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) gefnogi'r gwaith o ddiogelu a hyrwyddo'r iaith yn unol ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
- ii. Mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn rhoi pwyslais cryf ar y Gymraeg fel ystyriaeth ddiwylliannol a chynllunio allweddol. Mae'r cynllun yn cydnabod y Gymraeg fel ased cenedlaethol ac yn rhan annatod o hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth Cymru ac mae Amcan 4 y cynllun yn cefnogi strategaeth Gymraeg 2050 Llywodraeth Cymru sy'n anelu at gyrraedd miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050 ac sy'n nodi 'Cymru lle mae pobl yn byw mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu'.
- iii. Yn hyn o beth, mae Cymru'r Dyfodol yn glir bod yn rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ystyried y berthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd a'r Gymraeg ac y dylai cynlluniau o'r fath gynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthu twf sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu.
- iv. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) (PCC) yn parhau i ymgorffori'r Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol o fewn y system gynllunio defnydd tir ac yn atgyfnerthu'r gofyniad statudol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried effeithiau eu cynlluniau a'u penderfyniadau ar ddefnydd a lles yr iaith. Drwy alinio'r broses gynllunio â nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 o gael y 'Gymraeg yn ffynnu' ac annog y defnydd o offer fel Asesiadau Effaith ar y Gymraeg, mae PCC yn ceisio sicrhau bod yn rhaid i ddatblygu cynaliadwy gefnogi gwead cymdeithasol ac ieithyddol cymunedau Gymraeg eu hiaith yn weithredol ac osgoi niweidio'r cymunedau hynny.
- v. Ym Mro Morgannwg, mae cyfran y siaradwyr Gymraeg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ond mae wedi dangos twf cymedrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg yn ehangu, gydag ysgolion newydd wedi'u cynllunio yng Ngorllewin y Fro.
- vi. Er mwyn diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach, bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith addysg cyfrwng Gymraeg; annog creu lleoedd sy'n adlewyrchu ac yn dathlu hunaniaeth ddiwylliannol Cymru; yn gofyn am Asesiadau Effaith ar y Gymraeg (AEG) ar gyfer datblygiadau sylweddol mewn ardaloedd ieithyddol sensitif a hyrwyddo cydlyniant cymunedol a chyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.
- vii. Mae'r CDLIN yn cydnabod y Gymraeg fel rhan hanfodol o dreftadaeth a hunaniaeth ddiwylliannol y Fro. Drwy bolisïau cynllunio wedi'u targedu a buddsoddiad mewn seilwaith, nod y Cynllun yw cyfrannu'n gadarnhaol at nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.

- viii. Mae'r papur yn cefnogi amcanion strategol y CDLIN trwy:
- Gwerthuso defnydd a dosbarthiad cyfredol siaradwyr Cymraeg ar draws y Fro.
 - Nodi cymunedau lle mae'r Gymraeg yn fwyaf cyffredin.
 - Asesu effaith bosibl cynigion datblygu ar y Gymraeg.
 - Llywio ymatebion polisi sy'n cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 20 (NCT 20).



Cyngor Bro Morgannwg

Cyfarwyddiaeth Lleoedd

Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk

